COFNODION CYFARFOD O BWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU PWNC 1 A GYNHALIWYD AR FFURF HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB, DYDD LLUN, 11 MEDI 2023, AM 11:00

Presennol

Y Cynghorydd A Williams – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| RJ Collins | M J Evans | H Griffiths | D M Hughes |
| M Jones | J Llewellyn-Hopkins | I M Spiller | T Thomas |
| AJ Williams | E D Winstanley | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Dywedodd y Cynghorwyr Martyn Jones a Tim Thomas y byddai angen iddynt adael y cyfarfod yn gynnar.

Gwahoddedigion:

Mark Lewis, Rheolwr Grŵp Cymorth i Deuluoedd a Catherine Evans, Rheolwr Gweithredol, Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid.

Cynrychiolydd Cofrestredig:

Lynsey Morris.

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Lucy Beard | Swyddog Craffu |
| Rachel Keepins | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |

Gwahoddedigion:

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Jon-Paul Blundell | Aelod Cabinet Addysg |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Nicola Echanis | Pennaeth Addysg a Chymorth Cynnar |
| Christa Bonham - Griffiths | Rheolwr Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid |
| Kevin Reeves | Rheolwr Gweithredol, Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid |

22. DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd y canlynol fuddiant personol yn Eitem 4 ar yr Agenda, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a Chynllun Gweithredol:

y Cynghorydd Martyn Jones fel Ustus presennol yn Llys Ynadon Caerdydd;
Cynghorydd Johanna Llewellyn-Hopkins fel Aelod o Banel Trosedd De Cymru.

23. CYMERADWYO'R COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 1 dyddiedig 13 Mawrth 2023 fel cofnod gwir a chywir.

24. GWASANAETH CYFIAWNDER IEUENCTID A CHYNLLUN GWEITHREDOL

Cyflwynodd Rheolwr Strategol y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yr adroddiad, a'i ddiben oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y cynnydd a wnaed o ran yr argymhellion, y camau gweithredu a'r datblygiadau cyfunol a amlinellwyd yn ei Gynllun Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer 2022-2023 a'r blaenoriaethau a nodwyd yng Nghynllun Blynyddol Cyfiawnder Ieuenctid 2023-2024 Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Rheolwr Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Strategol a'r Gwahoddedigion a thrafododd yr Aelodau'r canlynol:

- Manylion yn yr adroddiad yn ymwneud â gwelliannau i gysylltiadau iechyd meddwl a'r data a aseswyd, gan gynnwys:
  - Roedd gan y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed gynrychiolaeth ar y Bwrdd Rheoli.
  - Problemau datrys atgyfeiriadau a chau achosion.
  - Y Rheolwr Datrys Problemau Gweithredol yn ei le.
  - Un pwynt mynediad mwy hygyrch i gael gafael ar y ddarpariaeth.
  - Byddai swydd Ymgynghorydd Gweithredol Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) yn cael ei llenwi a fyddai'n gweithio'n uniongyrchol gyda'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid.
- Sicrwydd ynghylch y gwelliannau sylweddol a wnaed ers yr Argymhellion a wnaed yn yr adroddiad arolygu ym mis Chwefror 2022.
- Dadansoddiadau o'r wybodaeth ariannol a staffio sy'n ymwneud â Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr, darpariaeth o gyllidebau partneriaid amlasiantaethol a rhwymedigaethau ariannol ar gyfer partneriaid sydd â chyfrifoldeb statudol i gyflawni'r cynllun
- Cynrychiolaeth yr Heddlu, Addysg, y Gwasanaeth Prawf, Iechyd a Gofal Cymdeithasol Plant ar y Bwrdd Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid fel rhwymedigaeth gyfreithiol o dan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998, ac yn benodol, yr angen am fwy o gefnogaeth gan y gwasanaeth prawf o ganlyniad i'r galw ar y gwasanaeth.
- Ystadegau holiadur Fy Llais, yn arbennig y 64% o'r 25 o ddisgyblion oedd yn mynychu'r ysgol nad oedd yn ei mwynhau, a nodwyd y byddai wedi bod yn dda clywed safbwyntiau'r ysgol ynglŷn â sut yr oeddent yn cefnogi'r unigolion hynny.
- Materion yn ymwneud â recriwtio ar draws y Sir a'r gronfa fechan o weithwyr proffesiynol ar gyfer rhai rolau a allai fod yn achosi oedi ac anawsterau o ran recriwtio, a sicrwydd bod tîm pwrpasol i sicrhau bod ymateb cyflym i blant o ran asesu a chynllunio, yn ogystal â defnydd y gwasanaeth ehangach.
- Cyflwyno'r offeryn sgrinio trawma ar gyfer pob plentyn sy'n dod i mewn i'r gwasanaeth, y sgrinio i'w gyflawni, sut y caiff ei adolygu a'r adnodd i adolygu'r prosesau.
- Y Dangosyddion Perfformiad Allweddol cenedlaethol presennol a'r rhai ychwanegol a osodwyd ym mis Ebrill 2023 a'r diffyg mesurau neu dargedau yn eu herbyn, sut bydd y data a'r wybodaeth yn cael eu monitro yn y dyfodol i sicrhau bod y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn perfformio.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw gwestiynau pellach i'r Gwahoddedigion, diolchodd i'r Gwahoddedigion am fod yn bresennol a dywedodd y gallent adael y cyfarfod.

PENDERFYNWYD: Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrafodaethau ag Aelodau'r Cabinet a Swyddogion, gwnaeth y Pwyllgor yr Argymhellion a ganlyn:

1. Bod y naratif yn cael ei gynnwys mewn adroddiadau i'r Pwyllgor Craffu yn y dyfodol yn egluro pam nad oedd y tabl cyllideb gyda dadansoddiad o'r wybodaeth ariannol a staffio yn y Cynllun Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn dangos cefnogaeth ariannol gan y Gwasanaeth Prawf a/neu Iechyd.

2. Bod y Pwyllgor yn ysgrifennu llythyr at y Gwasanaeth Prawf yn tynnu sylw at y cynnydd yn y galw ar y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid (GCI) ac yn gofyn am fwy o gefnogaeth o ystyried y ddyletswydd statudol ar y GCI i gael isafswm o gynrychiolwyr o'r Heddlu, Addysg, y Gwasanaeth Prawf, Iechyd a Gofal Cymdeithasol Plant.

3. Bod mwy o ymgysylltu a chydgysylltu rhwng ysgolion a'r Heddlu a chanolbwyntio ar atal.

4. Bod person ifanc 18+ oed ond o dan 25 oed sydd wedi mynd drwy'r GCI yn cael ei wahodd i eistedd ar Fwrdd Rheoli GCI Pen-y-bont ar Ogwr i roi ei ddealltwriaeth o'i brofiad o'r GCI a gwelliannau posibl.

5. O ystyried bod problemau recriwtio ar draws y sefydliad cyfan ond yn cydnabod bod angen cael staff arbenigol digonol i gynnal rhywfaint o'r sgrinio trawma, argymhellwyd yn gryf eu bod yn edrych i weld a oedd yr hyn oedd ganddynt ar hyn o bryd yn ddigonol, er mwyn gallu cyrraedd eu targedau perfformiad a sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu diogelu.

Gofynnodd y Pwyllgor am y canlynol:

6. Dolen i ymatebion yr Arolygiad ar y Cyd a wnaed gan Arolygiaeth Gofal Cymru.

7. Mwy o wybodaeth am y rhesymau pam nad oedd 45% o blant yn mynychu'r ysgol fel yr adroddwyd yn holiaduron Fy Llais.

8. Data ynghylch y Dangosyddion Perfformiad Allweddol cenedlaethol i'w ddosbarthu i'r aelodau i weld y dyheadau ar gyfer pob rhan o'r gwasanaeth, ac ar gyfer mesur a monitro perfformiad y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid.

Mwy o ddata ar faint o sgrinio trawma gan ddefnyddio'r Model Adfer Trawma oedd heb ei gyflawni eto, pa mor aml y byddai'n cael ei adolygu a sut y byddai'r gwasanaeth yn rheoli'r adnoddau staffio i'w gyflawni.

25. DIWEDDARIAD AR Y FLAENRAGLEN WAITH

Bu'r Pwyllgor yn trafod y Flaenraglen Waith.

Nododd y Pwyllgor y byddai'n fuddiol gwahodd cynrychiolwyr ysgolion – penaethiaid ysgolion a chynrychiolwyr Byrddau Iechyd i graffu ar adroddiadau yn y dyfodol ar y gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r Flaenraglen Waith yn Atodiad A, yn amodol ar y sylw uchod, yn nodi'r Taflen Monitro Gweithredu Argymhellion yn Atodiad Bac yn nodi fod Taflen Monitro Gweithredu Argymhellion y Flaenraglen Waith, ac unrhyw ddiweddariadau gan y Pwyllgor yn cael eu hadrodd i gyfarfod nesaf Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc.

26. EITEMAU BRYS

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 13:45.